

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 23

Key language

Comparison of adjectives

I'm afraid

Er mwyn

New words

aml

y cyfan dw i'n ofyn

hawl

gwynto (SW)

cad dy gelwydd (SW)

heblaw am

llwyddo

argraff

sgwrs

cymer ofal

bwriadu

gynnau

dod draw

diweddaraf

ofnadwy

amynedd

cydymdeimlad

ymosod ar

gwahanu

anodd

bwrw

echnos

amrywio

amheuon

mewn difri calon

yn falch o glywed

hwyllo

mymryn

trefnu

o leiaf

blasu

asgwrn

tafod

osgoi

fiw inni

clun

Wendy attacked Jenny Saunders when they met prior to Wendy's disciplinary meeting. Wendy pressed Jenny to tell the truth about the incident in Agnes Rees' office.

As part of her plan to get her revenge on Agnes Rees, Wendy has succeeded in striking a friendship with Brian Rees.

Main Grammatical Points

Comparison of adjectives

The comparative form of the adjective, in English: more something than, or something ...ier or ...er than, is formed in Welsh in one of two ways.

Firstly, by placing mwy before the adjective followed by â, for example

Mwy cynnar na	earlier than
Mwy anodd na	harder than
Mwy pwysig na	more important than
Mwy diweddar na	later than
Mwy cynnar na	earlier than

You will also hear forms that convey the same meanings but are formed by adding ach to the end of the adjective.

Ifancach na	younger than
Diweddarach na	later than
Anoddach na	more difficult than
Pysurach na	busier than
Cyflymach na	faster than

Note that in certain words, when the short form is used, there are certain other letter changes, for example, pwysig becomes pwysicach na, cynnar becomes cynharach na

We have already come across the forms gwell - better, gwaeth - worse, llai - smaller.

Here are some more irregular forms:

Agos - near	Nes - nearer
Hawdd - easy	Haws - easier
	Jenny uses haws when referring to her swimming
	- haws o lawer
Hen - old	hyn - older
	in speech you will also hear henach
Uchel - high	uwch - higher
Isel - low	is - lower

I'm afraid

There are a number of ways of saying I'm afraid

Mae gen i ofn
Mae arna i ofn are commonly used in North Wales

Mae ofn 'da fi
Or dw i ofn is also commonly heard

Er mwyn

Er mwyn can mean 'in order to'

Dw i'n mynd er mwyn prynu car newydd
I'm going in order to buy a new car.

When used with a pronoun, its meaning is little different - 'for the sake of' or 'for someone's sake':

Brian says: er dy fwyn di a'r plant for your sake and the children's sake

The full forms are
er fy mwyn i
er dy fwyn di
er ei fwyn e/o
er ei mwyn hi

er ein mwyn ni
er eich mwyn chi
er eu mwyn nhw

And finally some words and phrases that appear in the episodes:

Argraff	impression
Cad dy gelwydd (SW)	you're lying
Bron â bod	nearly
Arogl	smell
Amynedd	patience
Yn bendant	definitely
Doeth	wise
Amrywio	to vary
Amheuan	doubts

Ysbyty Brynaber: Episode 66

Brian is on his way out - Agnes accuses him of going out each night of the week. He reassures her by saying that he has quite a few business commitments.

Geirfa

aml	often
y cyfan dw i'n ofyn	all I ask
hawl	permission
gwynto (SW)	to smell
cad dy gelwydd (SW)	don't lie
heblaw am	apart from
llwyddo	to succeed
argraff	impression
sgwrs	a chat
cymer ofal	take care

Golygfa 1

Rhodri - O, Mam! Pam?

Agnes - Edrycha nawr, Rhodri - dw i ddim eisiau clywed 'O, Mam! Pam?' eto heno...Dw i'n clywed 'O, Mam! Pam?' yn llawer iawn rhy aml yn y ty 'ma...

Rhodri - Ond dw i ddim eisiau mynd lan i'r gwely nawr!

Agnes - Mae Beca wedi mynd ers chwarter awr a mwy -

Rhodri - Ond mae Beca yn ifancach na fi!

Agnes - Edrycha yma nawr: y cyfan dw i'n ofyn iti wneud yw golchi dy ddannedd a newid i dy byjamas.....

Rhodri - A ga i ddod lawr llawr wedyn?

Agnes - Cei.

Rhodri - O, diolch, Mam! Diolch, diolch, diolch!

Agnes - Ond dim ond am rhyw ddeng munud a dw i'n moynti yn dy wely wedyn hynny...A gei di ddarllen...

Rhodri - Ond mae hi mor 'boring' darllen yn y gwely.

Brian - Gwrandda di ar beth mae dy fam yn ddweud rwan, Rhodri...

Rhodri - Dw i wedi cael dod i lawr ar ôl golchi fy nannedd a newid i 'mhyjamas...

Brian - Cer i wneud hynny 'te...

Agnes - Yffach! Ti'n gwynto'n ffein...

Brian - Ydw i?

Agnes - Aftershave. Mmmm. Ti ddim yn mynd mas, wyt ti?

Brian - Mae gen i ofn fod rhaid imi...

Agnes - I ble heno eto?

Brian - Hei, hei. Paid â'i ddweud o fel yna...Argol fawr, o'r ffordd ti'n swinio rwan, faset ti'n meddwl fy mod i allan bob noson o'r wythnos...

Agnes - Wyt ti - bron a bod...

Brian - Na, dydw i ddim...

Agnes - Brian, cad dy gelwydd! Ti wedi bod mas bob nos heblaw am nos Sul...

Brian - Mae gen i bethau i'w gwneud on'd oes? Gwaith. Ceir i'w gwerthu. Cwsmeriaid i'w cadw'n hapus...

Agnes - Mae'r rhan fwyaf o ddynion yn llwyddo i wneud eu gwaith rhwng naw o'r gloch a phump bob dydd...

Brian - Does gan y rhan fwyaf o ddynion ddim busnes i'w redeg fel sydd gen i...

Agnes - Dw i'n cael yr argraff dy fod ti ddim eisiau aros gartre gyda dy deulu...

Brian - Agnes, paid â siarad yn wirion...

Agnes - Dyna'r argraff rwyf ti'n roi...

Brian - Edrycha: fasa dim byd yn well gen i na aros adref hefo fy nheulu...Helpu Rhodri hefo'i waith cartref...Rhoi bath i Beca...Cael glasiad o win a sgwrs hefo ti wedi i'r plant fynd i'w gwelyau...Ond yn anffodus...

Agnes - Mae gwaith yn bwysicach...

Brian - Mae o'n waith dw i'n gorfod ei wneud.

Agnes - Dyna ti 'te.
 Brian - Sori. Ond er dy fwyn di a'r plant dw i'n gweithio mor galed...Er mwyn i chi gael y gorau mewn bywyd...
 Agnes - Ti am i fi aros lan iti heno?
 Brian - Na...does dim dal pryd dof i adref...Mae gen i eisiau gweld rhyw foi sy'n byw ar ffarm allan yn y wlad...
 Agnes - Bydd yn ofalus...
 Brian - Dw i wastad yn ofalus...
 Agnes - Dw i ddim eisiau i ddim byd drwg ddigwydd iti, Brei...
 Brian - Wneith dim byd drwg ddigwydd i fi siwr iawn...
 Agnes - Cymer ofal wrth yrru nawr wnei di ...?
 Brian - Siwr iawn. Dw i'n dy garu di, Agnes...
 Agnes - Dw i'n dy garu di hefyd...Dy garu di'n fwy na neb yn y byd i gyd, Brei...

Golygfa 2

Arwyn - ...Na, Mam, na...Dyna pam roeddwn i eisiau eich ffonio chi heno...Jest i wneud yn siwr eich bod chi'n dal i fwriadu dod yma am gino dydd Sul ar ôl y capel?...Ie...Wel, os ydych chi'n cofio, dyna beth drefnon ni ynte? Ie...O'r gore...Ydych chi'n dal i ddod? Fydd Jenny a fi'n edrych ymlaen i'ch cael chi gyda ni...Os hynny, fe ddof fi draw i'ch moyn chi'n y car...Ie...
 Ydw, dw i'n iawn, Mam...Ydy, mae Jenny yn iawn hefyd...Na, dydy hi yma ar y foment...Mae hi wedi mynd i'r Ganolfan Hamdden...I nofio, Mam...Nage - nofio...Nofio, ie...Dydych chi ddim yn cofio fi'n dweud wrthoch chi gynau fach ei bod hi'n mynd i nofio unwaith yr wythnos nawr?
 Mae hi wedi bod yn mynd i nofio unwaith yr wythnos ers dechrau'r flwyddyn...Ydy...
 Jenny - Dw i nôl...Hefo pwy ti'n siarad?
 Arwyn - Mam...
 Jenny - Am beth rwan eto?
 Arwyn - Mae hi'n dod draw aton ni am gino Sul...Na, na, - siarad â Jenny ydw i,
 Mam...Mae hi newydd ddod i mewn trwy'r drws jest nawr...
 Arwyn - Ody...O'r pwll nofio, Mam - dw i newydd ddweud wrthoch chi...Ie...Tan dydd Sul! Hwyl am y tro
 'te...!
 Jenny - Oes rhaid iddi ddod yma dydd Sul?
 Arwyn - Chwarae teg nawr, Jen...Ond pryd oedd y tro diwetha fuodd Mam yma?
 Jenny - Dros y Nadolig..
 Arwyn - Dyna ti. Profi mhwynt i. Mae dros ddau fis

Ysbyty Brynaber: Episode 67

Arwyn is on the telephone to his mother - this only sparks off a row between himself and Jenny.

Dic and Arwyn discuss the outcome of Wendy Keating's case.

Agnes discusses Brian's frequent evening work commitments with Jenny Saunders.

Geirfa

bwriadu	to intend
gynnau	earlier on
dod draw	to come over
diweddaraf	the latest
ofnadwy	terrible
amynedd	patience
cydymdeimlad	sympathy
ymosod ar	to attack
gwahanu	to separate
anodd	difficult
bwrw	to strike
echnos	the night before last
amrywio	to vary
amheuo	doubts
mewn difri calon	in all seriousness

Golygfa 1

Arwyn - Beth yw'r ddiweddaraf 'te, Richard?

Dic - Ddiweddaraf am beth nawr?

Arwyn - Wendy Keating...

Dic - Dw i ddim yn gwybod... Pam rwyd ti'n gofyn?

Arwyn - Ti wedi clywed rhywbeth o'i hanes hi ers dydd Iau diwetha?

Dic - Na.

Arwyn - Trueni ynte?

Dic - Ie.

Arwyn - Ond dyna fe... Dw i ddim yn gweld sut allai'r Panel Disgyblu wedi dod i unrhyw benderfyniad arall - ond i roi y sac iddi.

Dic - Na fi.

Arwyn - Roedd Sister Agnes Rees yn teimlo'n ofnadw am yr holl fusnes...

Dic - Oedd, dw i'n gwybod. Dwedodd hi wrtho i...

Arwyn - A Jenny. Ond fe gollodd Jenny lot o amynedd a mwy byth o gydymdeimlad pan wnaeth Wendy ymosod arni yn y coridor...

Dic - Weles i'r ffradach. Y fi wnaeth wahanu'r ddwy... Alla i ddweud rhywbeth, Arwyn? Rhywbeth preifat?

Arwyn - Wrth gwrs... Beth?

Dic - Dw i'n gwybod fod hyn yn anodd... Yn anodd i bawb... Ag yn fwy anodd i Agnes... Ac o bosib i Jenny... Ond mae Wendy wedi mynnu o'r cychwyn taw Sister Agnes Rees wnaeth ei bwrw hi gynta... A taw dim ond ei bwrw hi nôl mewn braw wnaeth hi...

Arwyn - Dwedodd Wendy yr un peth wrtho i.

Dic - Mae hi'n dweud yr un peth wrth bawb.

Arwyn - Ond wyt ti'n ei chredu hi?

Dic - Dw i mewn sefyllfa anodd... Dw i'n gyn-gariad i Wendy... A fyddai pawb yn disgwyl i fi gymryd ei hochor hi ar yw fater fel hyn...

Arwyn - Ond yn dy galon, Richard, wyt ti'n meddwl bod Wendy yn gweud y gwir?

Dic - Yn fy nghalon - ydw.

Arwyn - Ti'n meddwl taw Sister Agnes Rees wnaeth ei bwrw hi gynta?

Dic - Ydw.

Arwyn - Ond y cyfan welodd Jenny pan wnaeth hi gamu trwy'r drws i'r swyddfa oedd Wendy yn bwrw

Agnes...
Dic - Dyna'r broblem ynte?
Arwyn - Ti'n meddwl ddylai Wendy Keating fynd i apêl ar y mater yma?
Dic - Ydw. Yn bendant...

Golygfa 2

Agnes - Beth wyt ti'n feddwl 'te?
Jenny - Wel...Dw i ddim yn yn siwr beth i feddwl...
Agnes - Ti ddim yn meddwl ei fod e'n od?
Jenny - Ac roedd Brian allan neithiwr hefyd?
Agnes - Oedd, neithiwr...Ac echnos...A'r noswaith cyn hynny...
Jenny - A ble mae o'n deud ei fod o'n mynd?
Agnes - Gwaith gan fwyaf...Neu mae ambell bwyllgor gyda fe...Pwyllgor Rali AA y Sir...Ac mae ambell gyfarfod yn y Rotari...Ambell gino...
Jenny - Ag ydy o allan yn hwyr?
Agnes - Amrywio...
Jenny - Pwy fath o amrywio?
Agnes - Weithiau fydd e nôl 'bytu hanner nos...Dro arall fydd e nol 'bytu un i ddau o'r gloch y bore...
Jenny - Ble wyt ti'n feddwl mae o'n mynd 'te?
Agnes - Dyna'r peth...Dw i ddim yn siwr...Ond mae gyda fi fy amheuo...
Jenny - A beth ydy dy amheuo di?
Agnes - Jac Whelan.
Jenny - Y dyn fydd yn sefyll hefo Brian yn Llys y Goron ym mis Ebrill...
Agnes - Ie. Y crwc yna.
Jenny - Ond beth mae Brian yn wneud hefo Jac Whelan?
Agnes - Dyna'r peth, ti'n gweld...Dw i ddim yn siwr...A bob tro dw i'n holi Brian am Jac Whelan mae e'n mynd yn dawel i gyd neu damaid bach yn grac...
Jenny - Felly...dw i'n dal ddim cweit yn deall, Agnes...ond beth ti'n trio ei ddweud?
Agnes - Mae hi'n amlwg i fi fod Jac Whelan yn trio cael Brian i wneud rhywbeth, on'd ydy e?
Jenny - Rhywbeth yn y llys, ti'n feddwl?
Agnes - Ie. Synnen i ddim...Rhywbeth gyda'r dystioleth...Maen nhw'n cytuno i ddweud yr un pethau...
Jenny - Ac mae'r ddau wedi pledio'n ddieuog?
Agnes - Mae Brian yn ddieuog.
Jenny - Ond ydy Jac Whelan ddim?
Agnes - Jac Whelan sy wedi cael Brian i drwbwl yn y lle cyntaf...A nawr dw i'n ofni bydd e'n cael Brian i ragor o drwbwl...
Jenny - Problem.
Agnes - On'd ydy hi?
Jenny - Ydy.
Agnes - A'r cwestiwn yw hyn: sut dw i'n mynd i stopio Brian rhag mynd mas yn y nos? Rhag mynd at Jac Whelan?
Jenny - Os mai dyna lle mae Brian yn mynd.
Agnes - Wel, ble arall mae e'n mynd, Jenny? Ti erioed yn meddwl fod Brian yn chwarae ambytu? Yn cael 'affair'? Wyt ti? Mewn difri calon, Jenny! Mae Brian wastad yn dweud cymant mae e'n fy ngharu fi...
Jenny - Dw i'n siwr ei fod o...
Agnes - Ydy. Mae e. A dw i'n ei garu fe hefyd. A dyna pam dw i'n becho am yr achos llys yma, ti'n gweld. Beth os byddai Jac Whelan yn tynnu Brian i lawr i'r gwter gyda fe? Beth wedyn?

Ysbyty Brynaber: Episode 68

Dic and Arwyn go on a fishing trip - Jenny at the last moment decides to join them. Jenny and Dic are left alone in the cabin ...

Geirfa

yn falch o glywed	glad to hear
hwylio	to sail
mymryn	a little
trefnu	to arrange
o leiaf	at least
blasu	to taste
asgwrn	a bone
tafod	tongue
osgoi	to avoid
fiw inni	we dare not
clun	hip

Golygfa 1

Dic - Bore da...

Arwyn - Bore da, Surgeon Commander Allen...Mae'r cwch yn ship shape a Bristol fashion ag yn barod ar eich cyfer chi.

Dic - Wy'n falch o glywed hynny, Capten Saunders! Ble wyt ti am i fi barcio'r car, Arwyn?

Arwyn - Ar bwys fy nghar i draw fan acw...

Dic - Owcidowc! Ond mae 'supplies' gyda fi ar y sedd gefn...

Arwyn - 'Supplies'?

Dic - 'Six-pack o lager'...

Arwyn - Fydd rhaid i'r 'steward' ddod i moyn nhw 'te.

Jenny - Be ti eisiau?

Arwyn - Dere i nôl 'supplies', Surgeon Commander Allen.

Dic - Doeddwn i ddim yn deall fod Jenny'n dod gyda ni heddiw...

Arwyn - Doeddwn i ddim chwaith...Ond pan ddwedais i wrthi neithwr dy fod ti a fi yn mynd mas i hwylio heddiw...fe benderfynodd Jenny byddai hi'n licio dod gyda ni...

Dic - Wel...Digon teg...Pam lai?

Arwyn - Ie...Pam lai? Achos mae hi'n casáu'r môr fel arfer.

Jenny - Bora da, Richard...

Golygfa 2

Arwyn - Ond dydy hi'n fendigedig?

Dic - Ydy. Bendigedig.

Arwyn - Edrychwch ar yr awyr...Y cymylau yna...! Anhygoel on'd ydy hi?

Dic - Anhygoel.....

Jenny - Ond ei bod hi fymryn yn rhy oer gen i.

Arwyn - Gwisga got a sgarff, Jen. Fyddi di ddim yn teimlo'n oer wedyn...

Jenny - Mae'r pysgod ar y gril yma bron yn barod. Glywaist ti fi, Arwyn?

Arwyn - Do.

Jenny - Beth ddwedais i 'te?

Arwyn - Ddwest ti bod y pysgod ar y gril bron yn barod.

Jenny - Jest testio. Mae hi'n bwysig gwneud, Richard - achos dydy Arwyn ddim yn gwrando arna i hanner yr amser.

Arwyn - Paid â gwrando arni, Richard. Dw i'n gwrando'n astud.

Jenny - Pwy sy'n dod acw i ginio dydd Sul 'te?

Arwyn - Paid â dechrau nawr. Rydyn ni wedi trefnu i gael mam draw i gino a dyna'i diwedd hi.

Jenny - Mae hi'n rhy oer gen i fwyta ar y dec...

Arwyn - Gwisga got a sgarff...

Jenny - Dw i yn gwisgo cot a sgarff fel mae hi. A het. A menyg. Edrycha. Os gwisga i got a sgarff arall, fydda i'n edrych fel y Michelin Man...

Jenny - Awn ni i fwyta wrth fwrdd y caban? Ia?
Dic - Does dim ots gyda fi...
Jenny - O leiaf fydd hi'n fwy cynnes fan hono...
Arwyn - O.K. 'te. Lawr â ni i'r caban...

Golygfa 3

Arwyn - Bendigedig.
Dic - Hyfryd iawn.
Arwyn - Nawr 'te, Richard: dwed wrtho i os wyt ti wedi blasu pysgod mwy ffresh na rheinia erioed yn dy fywyd?
Dic - Naddo. Erioed. Syth o'r môr. A syth ar y gril.
Jenny - Mae yna asgwrn yn sownd yn fy nant i...
Arwyn - Liciet ti bysgodyn arall, Richard?
Dic - Os oes yna un ar y bachyn y tu allan...?
Arwyn - Aros di fan hyn...Ac af fi mas i edrych nawr...
Dic - Ydy'r asgwrn yn rhydd eto?
Jenny - Na, ddim cweit...Dw i'n gallu ei deimlo fo hefo 'nhafod i o hyd...
Dic - Liciet ti i fi weld?
Jenny - Os gwelwch chi'n dda, doctor.
Dic - Agorwch eich ceg 'te i fi gael gweld...Ddwedodd Arwyn wrtho i bod ti wastad yn mynd yn sâl ar y môr...
Jenny - Ddim bob tro...Pam wnaeth o ddweud hynny...?
Dic - Ddwedodd e dy fod ti ddim wir yn hoffi hwylio...
Jenny - Dw i wrth fy modd yn hwylio...
Dic - A taw dim ond neithwr - yn hwyr neithwr - pan ddwedodd e wrtho ti bod fi yn mynd mas 'da fe heddiw wnest ti benderfynu dod...
Jenny - Sy'n hollol wir. Achos fy mod i eisiau bod hefo ti...
Dic - ...Jenny.
Jenny - Pam rydyn ni dau yn osgoi hyn?
Dic - Fiw inni...
Jenny - Ti isio. Dw i isio.
Dic - Na.
Jenny - Wyt. Dw i'n gwbod dy fod ti eisiau...
Dic - Paid â siarad fel yna. Plis.
Jenny - Dic, rho gusan i fi...
Arwyn - Dyna ni! Dyna'i diwedd hi! Dyna'i diwedd hi nawr!
Jenny - Diwedd hi beth?
Arwyn - Diwedd hyn i gyd wrth gwrs!
Dic - Pam? Beth sy?
Arwyn - Beth sy? Ddweda i wrthot ti beth sy: mam. Dw i newydd gael galwad ar y 'mobile'...Mae hi wedi cwmpo ar lawr ac mae nhw wedi gorfod mynd â hi i'r ysbyty mewn ambwilans...
Jenny - Ysbyty?
Arwyn - Ie. Maen nhw'n amau fod Mam wedi torri ei chlun!

Synopsis

Wendy has been sacked from her post at the hospital following the incident in Agnes Rees' office.

Jenny has asked Agnes whether she thinks Brian is having an affair, an idea which she finds ludicrous.

Arwyn invited Dic on a fishing trip. Jenny decided to join them. When they are left on their own on the boat, Jenny says:

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'don't lie'?
 - a) paid â siarad lol
 - b) **cad dy gelwydd**
 - c) cad dy ddwli
2. Translate 'in all seriousness' into Welsh
 - a) **mewn difri calon**
 - b) o waelod fy nghalon
 - c) gyda fy nghalon
3. What is the Welsh for 'I'm glad to hear'?
 - a) Dw i'n hapus i weld
 - b) Dw i'n falch o weld mwy a llai
 - c) **Dw i'n falch o glywed**
4. What's the Welsh for 'higher'?
 - a) **yn uwch**
 - b) yn fwy isel
 - c) yn is
5. How would you say 'For the sake of my children' in Welsh?
 - a) Er mwyn fy mhlentyn
 - b) **Er mwyn fy mhlant**
 - c) Edrych ar ôl y plant?
6. How would you translate 'the night before last' into Welsh?
 - a) neithiwr
 - b) y noson cyn heno
 - c) **echnos**